

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Safleoedd Arddangos

Cynyddu gwerth porthiant a dyfir
gartref gan ddefnyddio meillion

Menter ar y Cyd

Rhaglen Mentro yn llwyddo
unwaith eto



RHIFYN 29 - Medi/Hydfref 2020 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Clinig Iechyd Anifeiliaid

Mae samplu, profi a chynghor un-i-un gan filfeddyg lleol ar gael i fusnesau fferm cofrestredig gyda Cyswllt Ffermio yng Nghymru. Gall y profion gynnwys:

Profi gwaed (elfennau hydrin, proffilio metabolaidd, Johnes)

FEC Ffrwythlondeb hwrdd neu darw
Cyfrif Wyau
Ysgarthol

Leptospirosis

IBR Rhinotracheitis
Buchol Heintus

SGRINIO / ANHWYLDERAU GENETEG

Ectoparasitiaid (Clafr)

Bacterioleg – meithrin a sensitifrwydd, cloffni, postmortem
Unrhyw fater yn ymwneud â iechyd anifeiliaid

RHAID i bob busnes fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

Rhaid i ffermwyr a milfeddygon gadarnhau eu diddordeb gyda Cyswllt Ffermio cyn dechrau samplu/cynnal profion. Cyllid cyfyngedig ar gael.

Mae'n hanfodol bod y profi wedi cael ei wneud o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad cadarnhau.

Uchafswm o un clinig i bob busnes cofrestredig.

Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail cyntaf i'r felin.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â **Helen Lewis - 01970 631 425**
neu ebostio helen.lewis@menterabusnes.co.uk



www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Safle Arddangos Cefngwilgy Fawr

Safle Arddangos: Cefngwilgy Fawr, Y Gorn, Llanidloes, Powys

Swyddog Technegol: Elan Davies

Teitl y Prosiect: Cynyddu gwerth porthiant a dyfir gartref gan ddefnyddio meillion

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Prif nod y prosiect yw gwella ansawdd porthiant a dyfir gartref trwy gyflwyno meillion gwyn a choch i'r gwndwn pori a thorri. Trwy gyflwyno meillion i'r gwndwn presenol, mae potensial i leihau'r ddibyniaeth ar wrtaith artiffisial trwy wneud y mwyaf o allu meillion i sefydlogi nitrogen. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at asesu effaith porthiant o ansawdd uwch ar bwysau ŵyn wrth eu gorffen a'r dyddiau y mae'n ei gymryd hyd at eu lladd.

Mae meillion (gwyn a choch) yn ffynhonnell dda o brotein yn niet cilgnowyr; pan fyddant yn pori neu yn cael silwair. Bydd meillion hefyd yn sefydlogi lefelau nitrogen (N), felly, mae angen llai o wrtaith artiffisial i'r glaswellt dyfu. Mae gwndwn yn llawn meillion yn gweithio'n dda mewn cylchred porthiant ac o fudd i ffrwythlondeb y pridd a'i strwythur. Mae cynnwys meillion yn addas ar gyfer systemau ffermio cynaliadwy gan fod allyriadau methan o dda byw yn lleihau gan fod y porthiant yn gwella.


Amcanion y Prosiect:

- Prynu llai o ddwysfwyd trwy wella ansawdd porthiant.
- Lleihau'r defnydd o wrtaith artiffisial trwy fanteisio ar sefydlogi N gan feillion.
- Gwella pwysau terfynol a dyddiadau gorffen ŵyn gyda gwell dewisiadau o ran pori.
- Lleihau'r dyddiau hyd ladd ŵyn gyda gwell dewisiadau o ran pori.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

1. Gostwng y gwrtaith a ddefnyddir o 40kgN/ha i bob toriad silwair.
2. Cynyddu'r meillion yn y caeau wedi eu hail-hadu o <5% i >20%.
3. Lleihau'r dwysfwyd a brynir o 10% (h.y. cynyddu protein craidd (CP) porthiant ar y caeau wedi eu hail-hadu (5ha) o 12% i 20% oherwydd meillion [a'r cynnyrch o 5tDM i 10tDM] – byddai hynny'n cyfateb i 1,400kg o CP ychwanegol – sef tua 3t o soia hipro neu werth £1,000).
4. Cynyddu canran yr ŵyn sy'n cael eu pesgi erbyn 1 Medi o 10%.

Am ragor o wybodaeth am ddatblygiad y prosiect hwn,
ac am y newyddion diweddaraf, ewch i wefan Cyswllt Ffermio



Cytundeb llaeth yn ystyriaeth allweddol wrth ddewis tarw ar sail genomig i ffermydd llaeth

Gall cyflwyno gwell geneteg i fuches laeth wella proffidioldeb yn sylweddol - mae'r gwahaniaeth rhwng geneteg da a drwg mewn systemau lloea yn y gwanwyn gymaint â £186 y fuwch y flwyddyn.

Ar safle arddangos Cyswllt Ffermio Mountjoy, mae'r fuches sy'n lloea yn y gwanwyn, sydd â chyfradd uchel o heffrod, ar hyn o bryd yn cynhyrchu cyfartaledd o 496kg o solidau llaeth y fuwch y flwyddyn.

Trwy gychwyn ar brosiect gyda Cyswllt Ffermio i wella genomeg y fuches, mae'r teulu Hannah yn gobeithio cynyddu hyn i 520kg.

Gallai gwneud hynny gynyddu'r incwm o laeth o dros £24,000 y flwyddyn, dywedwyd wrth ffermwyr yn ystod darllediad digidol byw o'r fferm yn Nhrefgarn, ger Hwlfordd.

"Y targed effeithlonrwydd i ni fyddai cynyddu'r solidau llaeth i bob kg o bwysau byw o'r glaswellt a borir a'r silwair," dywedodd William Hannah.

Mae profi genomig wedi bod ar gael yn y Deyrnas Unedig ers 2012 gyda gwerthusiadau o wartheg Holstein, Friesian, Ayrshire, Jersey a Guernsey ar gael.

Dywedodd Fern Pearston, rheolwraig geneteg anifeiliaid yn AHDB Dairy, un o'r siaradwyr yn y digwyddiad Yn Fyw o'r Fferm o Mountjoy, mai'r fantais fwyaf o genomeg yw cael y wybodaeth ychwanegol yn gynnar yn oes yr anifail, gan adael i'r ffermwr gael mwy o hyder wrth benderfynu pa stoc ifanc i'w magu ar gyfer y fuches laeth, biff neu eu gwerthu.

Soniodd Ms Pearston am y broses o brofi genomig, o gymryd y sampl meinwe ar y fferm i dderbyn y canlyniadau genomig gan AHDB.

Mae'r dibynadwydd cynyddol o brofi genomig yn parhau trwy'r llaethiad cyntaf ac ail, esboniodd.

Mae hyn yn golygu y bydd buwch sydd wedi cael prawf genomig yn fwy dibynadwy - gan arwain at fwy o sefydlogrwydd yn ei chanlyniadau - na buwch arall yn y fuches sydd heb ei phrofi tan ei thrydydd llaethiad.

"Ar ôl i chi gael eich canlyniadau genomig, ni ddylai llunio eich penderfyniadau bridio newid o'r ffordd y byddech yn arfer gwneud hyn ar sail cyfartaledd rhiant neu brofion ar sail cynhyrchiant," dywedodd.

Cynghorodd Ms Pearston y ffermwyr i ddefnyddio'r offer sydd ar gael gan AHDB wrth baratoi i brynu semen, gan ganolbwyntio yn benodol ar nodweddion allweddol yn Adroddiad Geneteg y Fuches, sydd ar gael i ffermwyr llaeth sy'n cofnodi llaeth yn llawn.

Bydd yr adroddiad hwn yn dangos cryfderau a gwendidau'r fuches yn glir ynghyd â mynegai economaidd ar gyfer y fuches.

Mae'r £PLI, y Mynegai Oes Broffidiol, ar gyfer buchesi sy'n lloea trwy'r flwyddyn, £SCI yw'r Mynegai Lloea yn y Gwanwyn ar gyfer buchesi sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn, a £ACI yw'r Mynegai Lloea Hydref ar gyfer buchesi sy'n lloea yn yr hydref.

"Mae'r tabl meincnodi yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg cyflym o'r cryfderau a'r gwendidau genetig yn y fuches," dywedodd.

Argymhellodd Ms Pearston y dylai ffermwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddewis anifeiliaid o'r adroddiadau unigol - adroddiadau Stoc Ifanc a Buches Odro - i ymdrin â gwendidau yn y fuches gan gynnal y cryfderau sy'n bodoli.

Dylai teirw gael eu dewis yn yr un ffordd, ychwanegodd.

"Gall yr holl deirw sydd ar gael i'w prynu yn y Deyrnas Unedig gael eu hidlo ar sail nodweddion sydd o ddiddordeb gan ddefnyddio'r adroddiadau teirw sydd ar gael gan yr AHDB," dywedodd.

Dylai'r cytundeb llaeth a'r system gynhyrchu hefyd fod yn ystyriaeth allweddol wrth ddewis teirw.

Ym Mountjoy, mae'r cytundeb yn seiliedig ar solidau llaeth felly mae hon yn un o'r nodweddion sy'n cael eu targedu yn y prosiect genomeg.

"Ein nod yw cael buchod mwy effeithlon sy'n cynhyrchu mwy o solidau llaeth oddi ar laswellt sy'n cael ei bori," dywedodd Mr Hannah.

Mae'n sgrinio genomeg ei loeau heffrod i ddewis y stoc cyfnewid gorau ar gyfer y fuches odro - mae 95 o heffrod R2 wedi cael eu profi ac mae lloeau heffrod sydd wedi eu geni eleni wedi eu tagio a'u profi.

Dywedodd Simon Pitt, Swyddog Llaeth Technegol Cyswllt Ffermio, sy'n goruchwyllo'r prosiect, bod data genomig yn draddodiadol wedi gweithio yn well mewn buchesi lloea cynhyrchiol sy'n lloea trwy'r flwyddyn oherwydd bod llawer mwy o ddata i ddatblygu poblogaeth i gyfeirio ati.

Ond, wrth i fwy o fuchod sy'n lloea yn y gwanwyn cael eu cofnodi, bydd yn cynyddu'r data sydd ar gael am loeau benyw y teirw pori, dywedodd.



Ffigwr 1. Gwartheg yn pori ym Mountjoy



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.



Yn cyflwyno Dr Cate Williams:

Mae Dr Cate Williams yn ddarlithydd yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae hefyd yn rhan o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio. Cefndir mewn microbiolog perfedd cilgnowyr sydd gan Cate, gan ddefnyddio'r technegau geneteg diweddaraf i astudio microbiom y rwmen a gwerthuso targedau ar gyfer ei addasu a all wella cynhyrchiant anifeiliaid neu eu heffeithlonrwydd. Mae Cate wedi ysgrifennu am amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â da byw, o ffrwythlondeb buchod llaeth i faethiad moch, gyda diddordeb arbennig mewn geneteg a'r rôl y gall ei chwarae wrth ddatblygu cynhyrchu da byw yn gynaliadwy.

COMPOSTIO GWLÂN gan Dr Cate Williams

COMPOST GWLÂN

Ers cyflwyno ffabrigau synthetig, mae'r farchnad am wllân wedi dirywio yn gyson, ond yn sgil y pryder cynyddol am yr amgylchedd, gall gwlân gael ei addasu i feysydd eraill fel deunydd cynaliadwy, adnewyddadwy a chyfeillgar i'r amgylchedd.

Mewn compost


Mae creu compost gyda gwlân yn cynnig dewis gwahanol, mwy cynaliadwy na mawn, gan gynnig gallu tebyg i ddal dŵr ac amrywiaeth o faetholion hanfodol. Wrth i wllân bydru mae'n gweithredu fel ffynhonnell nitrogen sy'n cael ei ryddhau yn araf (10-11%), ynghyd ag elfennau hybrin eraill fel potasiwm, ffosfforws a haearn. Mae hyn yn gwneud gwlân tocio yn ddelfrydol ar gyfer compost oherwydd y nitrogen ychwanegol yn y baw a'r ysgarthion. Mae saim gwlân yn llawn potasiwm ac yn gweithredu fel ffynhonnell naturiol, sy'n ei ryddhau yn araf ar gyfer planhigion.

Mewn taenfeydd

Mae i wllân lawer o ddefnyddiau pan gaiff ei ddefnyddio fel taenfa neu mewn mat, uwch ben y ddaear, mae gwlân yn rheoli tymheredd pridd, yn lleihau tyfiant chwyn ac yn atal gwlithod a malwod rhag bwyta planhigion. O dan blanhigion, mae gwlân yn helpu i leihau faint o ddŵr a maetholion sy'n rhedeg i ffwrdd diolch i'w nodweddion amsugno a phresenoldeb gwlân-olew.

Mewn deunydd inswleiddio

Defnyddiwyd gwlân ers tro fel ynysydd sŵn a gwres, ond gyda'r diddordeb cynyddol mewn tai eco a'r defnydd o ddeunyddiau gwyrdd, fe ellid gweld cynnydd yn ei boblogrwydd. O ran ynysu rhag sŵn, roedd gwlân yn well na gwlân o fwynau a gwelwyd bod gwlân garw, o safon isel yr un mor effeithiol wrth ynysu gwres ac y mae cnu o safon uwch.



Gyda'r pryderon cynyddol am newid hinsawdd a'r angen i fyw yn gynaliadwy, mae gan wllân y potensial i ddod yn ôl yn amlwg – fel compost effeithiol ac amgylcheddol gyfeillgar neu fel deunydd adeiladu adnewyddadwy. Y camau nesaf fydd ymchwilio i'r amodau gorau ar gyfer compostio a chynyddu'r broses i helpu i adfer gwerth gwlân.



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

DIWEDDARIAD PROSIECT LLYNGYR MEWN DEFAID

Lleihau dibyniaeth ar gyffuriau anthelmintig ar gyfer mamogiaid yn ystod y cyfnod ŵyna drwy ddefnyddio triniaethau wedi'u targedu

Cefndir

Mae rhoi triniaeth llyngyr i bob un o'r mamogiaid o gwmpas amser ŵyna yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu problemau ymwrthedd anthelmintig o fewn eich diadell. Er mwyn lliniaru'r pryderon hyn, mae SCOPS wedi argymhell y dylid gadael o leiaf 1 o bob 10 o'r mamogiaid iachaf heb ei thrin.

Wrth i nifer yr achosion o ymwrthedd anthelmintig ar ffermydd defaid y DU gynyddu, mae angen lleihau'r nifer sy'n cael eu trin ymhellach, ond mae'n rhaid i ni ddarparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â sut i dargedu'r mamogiaid hynny sydd yn fwyaf tebygol o gynhyrchu'r lefelau uchaf o halogiad.

Amcanion y Prosiect

Gwyddwn nad yw pob mamog yn cynhyrchu'r un faint o halogiad. Mae cyfrifon wyau ysgarthol (FEC) yn amrywio rhwng mamogiaid yn ystod y cyfnod ŵyna ac mae ffactorau gan gynnwys sgôr cyflwr corff (BCS), maeth, oedran a nifer yr ŵyn a anwyd, ynghyd ag elfen enynnol, yn gysylltiedig ag ymateb imiwnedd y famog. Nod y prosiect yw cynnal gwaith monitro manwl ar ddiadelloedd masnachol i weld a oes modd i ni ganfod y mamogiaid hynny sy'n cynhyrchu lefel uchel o halogiad, ac felly i leihau'r gyfran sy'n cael eu trin o gwmpas y cyfnod ŵyna heb effeithio'n negyddol ar berfformiad ŵyn. Y bwriad yw darparu canllawiau ymarferol i gynhyrchwyr eraill allu eu mabwysiadu.



Ffigwr 1. Casglu samplau


Mae'r prosiect, sy'n rhedeg o ddechrau 2020 hyd at ganol 2022, yn cynnwys grŵp o 6 ffermwr o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y rhai sy'n cadw diadelloedd ucheldir; organig a llawr gwlad. Gan ei fod yn cael ei gydnabod bod maeth y famog a'r sgôr cyflwr corff yn effeithio ar gynnydd mewn allbynnau wyau gan famogiaid cyn esgor (PPR), roedd y grŵp eisiau ymchwilio ymhellach i hyn i weld a oes modd lleihau nifer y mamogiaid sy'n cael eu trin a lefelau halogiad ar borfeydd drwy adnabod a thargedu'r mamogiaid hynny sy'n fwyaf tebygol o weld eu hymateb imiwnedd yn dirywio o gwmpas amser ŵyna. Mae'r grŵp gweithredol hefyd yn cynnwys Zoetis Animal Health gyda Techion, Biobest ac APHA yn cyflenwi'r profion, ynghyd â FECPAK ar bob fferm ar gyfer monitro rheolaidd.

Methodoleg

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'r ffermydd wedi monitro grŵp o famogiaid a oedd yn cario gefeilliaid o oddeutu 6 wythnos cyn ŵyna hyd at 8 wythnos ar ôl ŵyna. Cymerwyd samplau ar gyfer cyfrif wyau ysgarthol gan y grŵp bob wythnos er mwyn darparu darlun cyflawn o'r cynnydd cyn esgor o ran graddfa, amseriad a hyd. O fewn y grŵp, maen nhw hefyd wedi adnabod 10 mamog 'sentinel' ar bob fferm ac mae samplau cyfrif wyau ysgarthol a samplau poer wedi cael eu casglu gan y rhain ar bump achlysur; cyn, ar adeg ac ar ôl ŵyna. Mae'r samplau poer yn cael eu dadansoddi ar gyfer gwrthgorff (IgA) sy'n arwydd o ba mor gryf yw system imiwnedd y famog.

Canlyniadau hyd yn hyn

Dim ond am gyfnod byr y mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg, ond mae data a gasglwyd hyd yma yn amlygu bod amrywiaeth sylweddol rhwng ffermydd o ran graddfa, amseriad a hyd y cynnydd mewn wyau cyn esgor. Ceir hefyd cadarnhad o amrywiaeth eang rhwng mamogiaid 'sentinel' unigol ar y ffermydd. Ar hyn o bryd, rydym ni'n edrych ar y tueddiadau o ran cyfrif wyau ysgarthol, sgôr cyflwr corff a gwrthgyrff yn y poer. Mae'r amrywiaethau yn y canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod cwmpas sylweddol i leihau nifer y mamogiaid sy'n cael eu trin ar y ffermydd hyn ar yr amod ein bod yn gallu eu hadnabod mewn modd ymarferol y gellir ei ailadrodd.



Ffigwr 2: Canlyniadau cyfrif wyau ysgarthol un o ffermydd y prosiect ar gyfer y grŵp o famogiaid a oedd yn cael eu monitro a oedd yn cario gefeilliaid. Dim ond mamogiaid gyda sgôr cyflwr corff o <3 oedd yn cael triniaeth llyngyr o gwmpas amser ŵyna.

Mae diweddariad llawn o'r prosiect ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.
www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Safle Arddangos: Hendre Ifan Goch, Glynogwr, Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddog Technegol: Elan Davies

Teitl y Prosiect: Gwella rheolaeth pridd a da byw i wella gallu'r pridd i ddal carbon, a lleihau ôl troed carbon y fferm

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Ymrwymodd llywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr cenedlaethol o 80% o lefelau 1990 erbyn 2050, gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig gostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr un cyfnod.

Prif nod y prosiect hwn yw yn gyntaf dynodi lefelau presennol y deunydd organig yn y pridd, y carbon organig yn y pridd a'r carbon gweithredol yn y pridd (ar sail t/ha) yn Hendre Ifan Goch. Gan ddibynnu ar y canlyniadau cychwynnol, y nod wedyn yw gweld a yw'n bosibl cynyddu lefelau carbon y pridd trwy fesur a rheoli.

Yn ystod y prosiect, cynhelir archwiliad carbon o'r fferm gyfan ar gyfer y safle arddangos gan ddefnyddio cyfrifiannell ôl troed carbon. Yn y pen draw bydd hyn yn cynnig ffigwr cydbwysedd carbon absoliwt ar gyfer y fferm. Bydd yr ymarfer hwn hefyd yn dynodi meysydd allweddol lle gellir gwneud gwelliannau i'r arferion ffermio i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; a thrwy hynny leihau'r ôl troed carbon gyda'r nod o ddod yn garbon niwtral.


Amcanion y Prosiect:

- Dynodi lefelau presennol y cynnwys organig yn y pridd, y carbon organig yn y pridd a'r carbon gweithredol yn y pridd yn Hendre Ifan Goch.
- Anelu at gynyddu lefelau carbon yn y pridd trwy amrywiol ddulliau mesur a rheoli.
- Cwblhau archwiliad carbon ar gyfer y fferm gyfan i gyfrifo ffigwr cydbwysedd carbon absoliwt.
- Dynodi meysydd allweddol yn y fferm lle gall allyriadau gael eu gostwng.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Osodwyd:

1. Cynyddu cynnwys organig y pridd a lefelau carbon y pridd o 1% yn flynyddol ar sail y mesuriadau gwaelodlin.
2. Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd da byw, gwella cyfraddau tyfu ŵyn o 50g/dydd yn ystod cyfnod o 12 wythnos.
3. Lleihau ôl troed carbon y kilo yr ŵyn a gynhyrchir yn flynyddol o 15% ar sail y mesuriadau gwaelodlin.

Am ragor o wybodaeth am ddatblygiad y prosiect hwn, ac am y newyddion diweddaraf, ewch i wefan Cyswllt Ffermio



RHAGORI AR BORI
PROSPER FROM PASTURE

Gwella dyfodol systemau da byw
sy'n seiliedig ar borfa

RHAGORI AR BORI Mae Rhagori ar Bori yn rhaglen fer gyda 3 lefel a fydd yn datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a hyder wrth reoli tir glas. Bydd angen i chi benderfynu pa lefel sydd fwyaf addas i chi.

MYNEDIAD

Bydd cymryd rhan yn y lefel **MYNEDIAD** yn darparu'r canlynol:

- Gwybodaeth gefndirol a theori'n ymwneud â rheoli'r borfa a systemau da byw
- Hyder a gwybodaeth i wella eich busnes
- Dealltwriaeth sylfaenol o gyfrifiadau a "Rheolau ymarferol bras"

Bydd pob ymgeisydd lefel Mynediad yn mynychu pedwar cyfarfod gorfodol.

CANOLRADD

Bydd cymryd rhan yn y lefel **CANOLRADD** yn darparu'r canlynol:

- Arddangos gwahanol dechnegau ymarferol o reoli porfa
- Argymhellion ynghylch sefydlu rhywogaethau a'r mathau gorau o laswellt ar gyfer pori cylchdro dwys
- Dealltwriaeth drylwyr o reoli pridd er mwyn sicrhau'r twf glaswellt gorau posib
- Enghreifftiau ar sut i roi elfennau ymarferol ac isadeiledd ar waith o fewn eich system bori

Bydd pob Dosbarth Meistr yn cynnwys o leiaf dau ddiwrnod o gyfarfod mewn lleoliad canolog (gall hyn newid mewn perthynas â Covid-19).

UWCH

Bydd cymryd rhan yn y lefel **UWCH** yn darparu'r canlynol:

- Dylunio'r ardal bori - mapio'r fferm, cynllun y padog, systemau dŵr
- Rheoli'r borfa a chyllidebu porthiant
- Cefnogaeth ar reoli'r borfa
- Gwella manylder trwy gyflwyno dulliau rheoli pori/busnes fferm
- Platfform i ehangu gwybodaeth ac i rannu syniadau i adeiladu hyder wrth reoli'r borfa

Bydd pob ymgeisydd lefel Uwch yn mynychu pedwar cyfarfod gorfodol.

Bydd angen i bob ymgeisydd sicrhau bod gan y busnes Gynllun Rheoli Maetholion cyfredol (heb fod dros 5 mlwydd oed). Mae cyllid ar gael i gael Cynllun Rheoli Maetholion, cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol am fwy o wybodaeth. Mae manylion cyswllt i'w cael ar ein gwefan ar www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Bydd y ffenest ymgeisio ar agor rhwng **26 Hydref 2020 – 26 Tachwedd 2020**.

Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â sut i fod yn rhan o Rhagori ar Bori ar ein gwefan yn fuan.



Ffermwr llaeth yn pwyso a mesur manteision godro robotig mewn buches ar raddfa fawr

Mae un o fentrau Cyswllt Ffermio yn helpu ffermwr ifanc yng Nghymru i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ar uwchraddio cyfleusterau godro'r fferm laeth deuluol.

Mae Ieuan Evans yn byw yn Rhiwarthen isaf, Capel Bangor, lle mae ef a'i deulu yn ffermio 1,100 erw.

Maen nhw'n godro 800 o wartheg ar ddwy uned gyda hanner y fuches yn cael ei godro mewn parlwr rotari 44 pwynt a'r hanner arall mewn parlwr herringbone 20/40.

Wrth iddynt anelu at ehangu'r fuches, maen nhw'n tyfu'n fwy na'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae Ieuan yn credu y gallai godro robotig fod yn opsiwn gyfer y fferm, ac fe ymgeisiodd am Raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio er mwyn ymchwilio ymhellach i'r dechnoleg fel sylfaen i'w benderfyniadau ei hun a ffermwyr llaeth eraill sy'n ystyried uwchraddio eu cyfleusterau godro eu hunain.

"Mae godro robotig wedi cymryd camau breision dros y 10 mlynedd diwethaf, felly nawr yw'r amser i ddechrau ystyried awtomeiddio ein systemau godro a phorthi, neu eu hawtomeiddio'n rhannol, er mwyn

lleihau ein llwyth gwaith o ddydd i ddydd yn sylweddol," meddai.

"Mae ffermio'n cael ei ystyried yn ddiwydiant traddodiadol a hen ffasiwn, ond mae angen i ni groesawu technoleg er mwyn ein cynorthwyo i gynhyrchu bwyd mewn ffordd sy'n bodloni tueddiadau modern gyda chwsmeriaid mewn modd cynaliadwy."

Gan fod ei deulu hefyd yn ceisio cynyddu capasiti storio slyri, roedd Ieuan yn awyddus i ddysgu o'r hyn a welodd ar y ffermydd y bu'n ymweld â nhw fel rhan o'r Gyfnewidfa Rheolaeth.

"Rydym ni eisoes wedi cymryd camau i leihau effaith ein slyri ar yr amgylchedd drwy fuddsoddi mewn system wasgaru slyri drwy biben gyda chwistrellydd disg, ond mae mwy y gellir ei wneud," meddai Ieuan.

"Rydym yn ceisio cynyddu ein capasiti storio slyri er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wasgaru pan fydd fwyaf buddiol i'r caeau, gyda llai o bosiblwydd o drwytholchi."

Fel rhan o'i daith astudio, bu Ieuan yn ymweld â Chanolfan Datblygu Llaeth Agri-Epi De-orllewin Lloegr yng Ngwlad yr Haf a Worthy Farm, Glastonbury, lle mae'r teulu Eavis wedi buddsoddi mwy na £2,000,000 mewn

parlwr godro robotig.

Bu hefyd yn ymweld â Bauernland AG yng ngorllewin yr Almaen, fferm laeth sy'n defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r parlwr godro rotari robotig DeLaval AMR, a Dendoldrum Farm yn Inverbervie, yr Alban, lle mae'r fuches gynhyrchol iawn yn cael ei godro mewn saith ciwbicl godro robotig Lely Astronaut.

"Mae'n anodd credu heb weld â'ch llygaid eich hun - roedd rhai o'r technolegau a welais yn ystod fy ymweliadau'n cael eu hystyried yn gymhleth ac yn bethau ar gyfer y dyfodol, ond ar ôl edrych yn fanylach, mae'n bosibl rhannu'r rhain yn systemau mwy syml gyda gwahanol rannau'n cwblhau gwahanol dasgau," meddai Ieuan.

Eto i gyd, mae gosod robotiaid mewn system laeth ar raddfa fawr yn gost sylweddol, ac mae'n dod i'r casgliad y



dylid ystyried yn ddwys cyn penderfynu buddsoddi.

Ond mae'n credu y bydd y costau'n lleihau a bydd systemau a gweithrediadau godro robotig yn cynyddu gan eu gwneud yn fwy deniadol i ffermwyr.

Mae'r daith astudio wedi dangos i Ieuan nad oes modd cael gormod o ddata mewn systemau ffermio llaeth.

"Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg ar ffermydd llaeth yn caniatáu ffermwyr i fesur mwy o elfennau ac i gofnodi llawer iawn o ddata fel na welwyd ei debyg o'r blaen," meddai.

"Os bydd y data'n cael ei ddadansoddi'n gywir gan y ffermwr/stocmon, bydd modd ei ddefnyddio fel adnodd gwerthfawr iawn a allai hyd yn oed ganfod problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg."

Mae Ieuan yn credu bod ymweld â ffermydd i weld beth mae ffermwyr eraill yn ei wneud yn ddefnyddiol iawn.

"Mae'n bosibl trosglwyddo'r holl dechnegau, systemau a dulliau a ddefnyddir ar ffermydd eraill o ddydd i ddydd er mwyn newid y ffordd yr ydych chi'n rhedeg eich fferm, gallai arbed ychydig eiliadau, munudau neu bunnoedd bob dydd. Gorau arf, arf dysg, ac mae ymweliadau fferm yn ffordd wych o drosglwyddo gwybodaeth," meddai.

Ffigur 1. Ieuan Evans, Rhiwarthen Isaf



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

Rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio yn llwyddo unwaith eto

Gwell cydbwysedd bywyd a gwaith, mwy o stoc ond llai o bwysau a'r gobaith o gyfleoedd newydd cyffrous yn y blyneddoddi i ddod! Diolch i fenter newydd ar y cyd a gefnogwyd gan raglen Mentro Cyswllt Ffermio, mae'r dyfodol yn edrych yn llewyrchus i ddau deulu amaethyddol o Ddyffryn Conwy. Maent wedi cyfuno dau fusnes fferm i'w rhedeg fel un busnes llaeth modern iawn.

Mae'r ffermwr ifanc Emyr Owen (30) o Bodrach, ger Pandy Tudur, sy'n ffermio mewn partneriaeth â'i rieni ar fferm 185 erw oedd yn magu gwartheg biff a defaid yn y gorffennol a'i gymydog agosaf, Gwydion Jones (38), yr oedd ei deulu yn arfer ffermio 150 o wartheg godro ar fferm 95 erw, Ty'n Ffynnon, wedi ymuno mewn partneriaeth fusnes ar y cyd, sy'n cynnwys brawd hŷn Emyr, Dylan a gwraig Gwydion, Elen.

Graddiodd Emyr a Gwydion mewn amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac maent yn entrepreneuraidd, yn barod i fentro ac yn ymroddedig. Roedd y ddau yr un mor benderfynol o ehangu eu busnes fferm teuluol gwreiddiol er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial i gynhyrchu llaeth oddi ar laswellt gan alluogi rhieni'r ddau i gamu yn ôl o'r pwysau dyddiol o ffermio yn yr ucheldir.

Mae gan Emyr gytundeb i reoli fferm leol a sylweddolodd na allai ffermio'r ddau le heb gael cefnogaeth ei rieni oedd yn gobeithio camu yn ôl.

Roedd Gwydion hefyd yn ymwneud â mentrau eraill ar y cyd oddi ar Ty'n Ffynnon ac roedd yn gwybod bod cynyddu ei fusnes llaeth teuluol yn gwneud synnwyr masnachol cadarn.

"Er bod y ddwy fferm yn cael eu rhedeg yn effeithlon iawn, roedd y ddau deulu yn sylweddoli ein bod wedi mynd â nhw cyn belled ag y gallem gan gytuno ei bod yn hanfodol cynllunio ymlaen ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir y ddwy," medd Emyr.

Ar ddiwedd 2018, fe wnaethant gysylltu â'u swyddog Mentro lleol, Gwydion Owen, a fu'n helpu i gefnogi'r teuluoedd trwy gydol y broses menter ar y cyd. Trwy dderbyn cefnogaeth fusnes a chyfreithiol wedi ei hariannu trwy Mentro, llwyddodd y ddau fusnes i sefydlu cwmni cyfyngedig newydd, adain fasnachu, Llaeth Bod-Ffynnon Cyf.

Wedi eu harfogi â chynllun busnes a ddarparwyd gan yr ymgynghorydd Cyswllt Ffermio a gymeradwywyd, Geraint Jones o Kite Consulting, fe wnaeth y ddau deulu ymuno yn ffurfiol, ac yna mynd at y banc a chael y benthyciad yr oedd arnynt ei angen



Gwên lydan gan y ffermwyr llaeth o Ddyffryn Conwy y mae eu menter ar y cyd wedi ei sefydlu gyda chefnogaeth gan Cyswllt Ffermio. O'r chwith i'r dde, y partneriaid busnes Dylan Owen, ei frawd Emyr a Gwydion Jones, a ddaeth at ei gilydd ar gyfer y llun yma cyn i reolau cadw pellter cymdeithasol Covid-19 ddod i rym! Llun: Farmers Guardian

i greu eu isadeiledd godro a chynyddu nifer y stoc. Dilynwyd hyn yn fuan iawn gan gytundeb cyfreithiol wedi ei lunio gan Elin Owen o Agri Advisor Legal LLP.

Gwerthodd teulu Emyr eu holl wartheg biff a'u defaid er mwyn prynu heffrod llaeth a chanolbwyntio yn llwyr ar y fenter laeth newydd. I Gwydion a'i deulu, roedd hwn yn gyfle i gynyddu maint eu buches Seland Newydd wreiddiol oedd yn lloea yn y gwanwyn o 150 trwy brynu 300 o heffrod llaeth newydd sydd yn awr yn eiddo i'r ddau deulu yn gyfartal.

Adeiladwyd parlwr godro cylchdro a llwybrau addas ar yr iard yn Bodrach oedd mewn lle canolog rhwng y ddwy fferm a gosodwyd cyflenwad dŵr newydd ar y ddwy fferm.

Mae i'r isadeiledd godro newydd y gallu i odro 450 o fuchod ddwywaith y dydd, gan gynhyrchu hyd at 5,000L o laeth yn flynyddol, sy'n cael ei werthu ar gontract i Arla.

Llwyddodd Gwydion i ddwyn aelodau ychwanegol o staff i mewn, gan ryddhau mwy o'i amser a gwella'r cydbwysedd bywyd a gwaith iddo. Dywed bod y gefnogaeth gan y rhaglen Mentro yn amhrisiadwy.

"Mae'r cyfuniad o gael cynllun busnes cadarn a chytundeb cyfreithiol gydag Emyr a minnau â gweledigaeth glir o'r hyn yr ydym am ei gyflawni, parch i'n gilydd a'r penderfyniad i ddiogelu dyfodol ein ffermydd teuluol, wedi rhoi sylfaen wych i ni wrth symud ymlaen."

Mae holl hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ailddechrau

Mae hyfforddiant wyneb i wyneb Cyswllt Ffermio wedi ailddechrau. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, er nad yw'r holl hyfforddiant Cyswllt Ffermio wedi dychwelyd i'r drefn arferol hyd yma, mae cyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb bellach ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Lle bo'n briodol, bydd amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r ddarpariaeth arferol, er mwyn lleihau cyswllt wyneb yn wyneb.

Golyga hyn, ar yr amod y cedwir at reoliadau Covid-19 cyfredol Llywodraeth Cymru, fod yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael. Bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant gyfathrebu'n glir beth yw'r ymddygiadau disgwyledig gan y dysgwyr; gan gynnwys yr angen i gadw manylion at ddibenion tracio ac olrhain; gofynion cadw pellter cymdeithasol; gofynion hylendid megis golchi dwylo'n drylwyr ac yn rheolaidd; hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'; beth i'w wneud os byddan nhw'n teimlo'n sâl; a'r hyn y dylent ei wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhybuddio y bydd y canllawiau'n agored i newid pe bai'r pandemig yn cael ei atgyfodi.

Croesawodd Kevin Thomas, cyfarwyddwr Lantra Cymru ddychweliad yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb.


"Wrth i bawb gynllunio ar gyfer y dyfodol, bydd sgiliau personol, busnes a thechnegol yn arbennig o fuddiol i'r rhai a allai fod angen addasu eu model busnes oherwydd yr amodau marchnad newydd a achosir gan y pandemig ac wrth i ni gynllunio i adael yr UE," meddai Mr Thomas.

Mae hyfforddiant wedi'i gategoreiddio'n fras o fewn themâu allweddol Cyswllt Ffermio sef 'busnes', 'tir' a 'da byw', ac mae'r holl gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio naill ai wedi'u hariannu'n llawn neu hyd at 80%.

"Mae yna ryw beth i bawb ym mron pob sector ffermio a llawer o feysydd gwaith sy'n gysylltiedig â bwyd fferm hefyd, felly ewch i'n gwefan, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu siaradwch â'r darparwr hyfforddiant o'ch dewis a dechreuwch gynllunio eich dyfodol," meddai Mr Thomas.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sgiliau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio ac i weld fersiwn ar-lein o'r llyfryn canllaw 'Cam wrth gam' newydd, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant.

Fel arall, cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol, Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio, neu'r darparwr hyfforddiant a ddewiswyd gennych.



Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau bellach AR AGOR

09:00 Dydd Llun 7 Medi – 17:00 Dydd Gwener 30 Hydref

Mae Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi llyfryn 'Cam wrth gam' newydd Cyswllt Ffermio yn tywys unigolion cofrestredig drwy'r broses o ymgeisio ar-lein yn bennaf, am hyfforddiant ac e-ddysgu.

Mae'r llyfryn defnyddiol hwn yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau Cynllun Datblygu Personol (PDP) ar-lein; defnyddio BOSS drwy Sign On Cymru; gwneud cais am hyfforddiant o'ch dewis, a byddwn yn eich annog i sicrhau bod eich Storfa Sgiliau, sy'n cofnodi datblygiad proffesiynol ar-lein, yn gyfredol hefyd.

"Ar bob cam o'r broses ymgeisio ar-lein, bydd y canllaw yn dangos beth fydd yn ymddangos ar y sgrin, yn ogystal â dweud wrthyfych pwy i gysylltu â nhw os oes angen cymorth neu arweiniad personol un-i-un arnoch o hyd" meddai Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Lantra Cymru, sydd yn darparu rhan fawr o ddarpariaeth hyfforddiant Cyswllt Ffermio ynghyd â Menter a Busnes.

Mae copi caled o'r llyfryn ar gael drwy gysylltu â'r Ganolfan Wasanaeth, swyddogion datblygu lleol neu ddarparwr hyfforddiant a ddewiswyd gennych.



Wedi cael eich dal allan gan y pandemig?

Dylai unigolion cofrestredig sydd wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer hyfforddiant wyneb i wyneb ond heb allu cwblhau'r cwrs am ei fod wedi'i ohirio yn sgil cyfnod clo'r pandemig, gysylltu â'r darparwr hyfforddiant a ddewiswyd ganddynt cyn gynted â phosib i drafod eu hopsiynau.

Gall y rhai nad ydynt eisoes wedi gwneud cais am hyfforddiant a ariennir wneud hynny o fewn y cyfnod ymgeisio sgiliau cyfredol. Os ydych yn cofrestru am y tro cyntaf, bydd angen i chi gysylltu â **Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio** ar **08456 000 813** cyn **17:00 ddydd Llun 26 Hydref 2020**.

Ynghyd ag ystod o fwy nag 80 o gyrsiau e-ddysgu a ariennir yn llawn, nifer a ehangwyd yn ddiweddar sydd ar gael i bob unigolyn cofrestredig, mae ystod hyfforddiant digidol neu 'o bell' Cyswllt Ffermio wedi cynyddu'n raddol ers i'r pandemig ymddangos gyntaf. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys cyrsiau ar ddiogelwch bwyd, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â busnes, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â dofednod a phynciau iechyd a lles anifeiliaid.

Pam bod y ffermwr defaid hwn o Bowys wedi ymgolli mewn e-ddysgu

Mae'r ffermwr defaid o'r drydedd genhedlaeth, Wyn Williams o Lanfair Caereinion yn gwybod llawer am ffermio defaid. Erbyn hyn, diolch i fodylau hyfforddi e-ddysgu ar-lein Cyswllt Ffermio sydd wedi eu hariannu'n llawn mae'n gwybod llawer mwy!

Magwyd Wyn ar y fferm deuluol ychydig filltiroedd o lle mae'n byw. Heddiw, ar ei fferm fynydd, sy'n amrywio o 1,100 i 1,300 troedfedd o uchder, mae'n cadw 500 o famogiaid croes penfrith yn bennaf a 200 o ŵyn benyw.

Mae Wyn wedi bod yn defnyddio unrhyw amser sbâr sydd ganddo i gael gwybodaeth newydd trwy Cyswllt Ffermio. Dilynodd fodylau e-ddysgu ar bynciau yn amrywio o ddynodi a thrin afiechydon mewn defaid i reoli llyngyr yr iau, cloffni, gwrthedd gwrthficrobaidd a bioddiogelwch.

Dywed Wyn ei fod wedi tybio nad oedd ganddo'r angen na'r amser i'w neilltuo i astudio, ond am na chafodd gyfle i ddilyn ochr academiaidd amaethyddiaeth, roedd ganddo bryderon nad oedd yn gwybod am y cyfarwyddyd mwyaf cyfredol a'r arferion gorau.



Capsiwn: Dywed y ffermwr mynydd Wyn Williams o Lanfair Caereinion a welir yma gyda'i swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol, Owain Pugh, bod y cyfnod clo wedi golygu ei fod wedi ymgolli mewn e-ddysgu

Fe'i darbwyllwyd gan ei swyddog datblygu lleol, Owain Pugh, i gofrestru ar gyfer BOSS, Gwasanaeth Cefnogi Busnes Ar-lein Llywodraeth Cymru trwy Sign On Cymru, sef y llwybr ar gyfer dewis a chael mynediad i ddewis Cyswllt Ffermio o fwy na 80 o gyrsgiau e-ddysgu.

"Ar ôl cwblhau fy nghwrs e-ddysgu cyntaf ar atgennedlu tymhorol mewn mamogiaid mewn llai nag awr, oedd yn cynnwys cwis byr i asesu beth oeddwn i wedi ei ddysgu, roeddwn wrth fy modd."

Yn awr mae Wyn yn gweithio trwy bob modiwl yn ymwneud â defaid sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio. Ar ôl iddo eu cwblhau i gyd, mae'n bwriadu symud ymlaen i gyrsgiau ar-lein ar laswelltir a rheoli busnes.

"Mae'n ffordd mor hawdd o gael mwy o wybodaeth, wedi ei gyflwyno ar yr union lefel gywir ac rydych yn dysgu ar eich cyflymder eich hun."

Am ragor o wybodaeth am sgiliau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant



"Mae dolenni defnyddiol sydd wedi fy nghyfeirio at ragor o wybodaeth wedi fy helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwell."

"Rwyf wedi arbed llawer o amser ac arian trwy ystyried y dewisiadau ar gyfer gwahanol gyfnodau peidio gwerthu ar ôl defnyddio dos. Trwy gael y wybodaeth berthnasol yn hawdd ei chyrraedd, rwy'n gallu symud y stoc ymlaen cyn gynted ag y byddant yn barod"

"Mae pob cwrs yn cynnwys cymaint o gyngor ymarferol y gallaf ei gysylltu bob amser â phroblemau yr wyf yn eu hwynebu ar y fferm o ddydd i ddydd."



Ffigwr 1. Moch Du, Fferm Forest Coalpit, yn chwilota yn eu coedlan

Sut gall moch a choetiroedd elwa o'i gilydd?

Cynefin naturiol hynafiaid moch yw coetir. Golyga hyn fod pori coetir yn cael ei ystyried fel system hanesyddol.

Mae moch yn fwy tueddol o gael eu ffermio'n ddwys mewn systemau dan do bellach, ond gall cadw moch mewn coetir, o dan yr amgylchiadau a rheolaeth cywir, fod o fudd i'r moch ac i'r goedlan. Mae'n bwysig nodi'r buddion amgylcheddol o ddefnyddio moch fel teclyn rheoli, sy'n cynnig opsiwn arall, yn hytrach na pheiriannau trwm a chemegau i wneud hyn.

Drwy chwilota a bwyta'r gorchudd daearol, gall moch ymddwyn fel ysglyfaethwyr naturiol yn erbyn rhywogaethau estron. Drwy leihau isdyfiant ac achosi aflonyddwch pridd, fe greu'r gwely hâd.

Mae'r ymddygiad chwilota naturiol sydd ganddynt yn golygu eu bod yn claddu hadau ynghyd â'u bwyta, sy'n creu gwell siawns i'r hadau hynny oroesi ac egino i gymharu â'r rhai sydd yn aros ar yr wyneb. O ganlyniad, mae hyn yn ddull effeithiol iawn o annog ail genhedlu naturiol fydd yn cyfrannu at wella

bio-amrywiaeth y coetir â'r fferm.

Wrth edrych ar ochr arall y geiniog, mae'r coed hefyd yn fuddiol iawn i'r moch drwy gynnig lefel effeithlon o gysgod. Mae moch hefyd yn hollysyddion ('omnivores'), sy'n golygu fod y mwyafrif ohonynt yn byw ar ddeiet amrywiol o wreiddiau, cnau, ffrwythau, a chig anifeiliaid bach megis nadroedd, sy'n nodweddion cyson mewn coetiroedd.

Mae'n holl bwysig sicrhau bod lefelau iechyd a lles yn cael eu cynnal ac felly mae'n bwysig sicrhau fod lefelau digonol o ddŵr a bwyd (o ffynonellau dibynadwy) yn cael eu darparu i'r moch. Os ddim, mae risg iddynt godi gwreiddiau a dinistrio coed sy'n ail genhedlu a gweithio'n groes i'r amcan gwreiddiol o reoli'r goedlan yn gynaliadwy.

Dywed Kyle Holford sy'n defnyddio'r coetir fferm i reoli a magu eu Moch Du ar Fferm Forest Coalpit, fod eu moch yn "chwilota am lawer o fwyd fel cnau a mês o'r coed a hynny heb unrhyw broblemau straen gwres o ganlyniad i'r cysgod mae'r coed yn ei ddarparu."

RHITHIOL >>>>>>

ARLOESI AC ARALLGYFERIO

19.10.2020 - 23.10.2020

Ychwanegu gwerth at eich busnes, buddsoddi yn eich dyfodol, paratoi i lwyddo

Ydych chi'n dymuno arallgyfeirio eich busnes?

Ydych chi'n awyddus i edrych sut i wella cynaliadwyedd a phroffidioldeb eich busnes drwy arloesedd a thechnoleg?

Yn dilyn llwyddiant Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru llynedd, rydym yn cynnal y digwyddiad ar-lein eleni. Byddwn yn darparu cefnogaeth cyngor ac arweiniad er mwyn gwella eich busnesau a'ch galluogi i edrych ar syniadau newydd i wella proffidioldeb a chynaliadwyedd.

Amserlen a manylion pellach i ddilyn yn fuan ar ein gwefan.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Gweminarau Wythnosol

Ymunwch â ni ac arbenigwyr y diwydiant mewn amrywiaeth eang o weminarau amserol wedi'u hanelu at ddarparu cymorth a gwybodaeth ddefnyddiol i chi yn ystod y cyfnod ansicr hwn. I ymuno â gweminar, ewch i'n tudalen digwyddiadau ar ein gwefan.



Pryd	Pwnc	Siaradwr
21/09/20 20:00	Bachwch y cyfle i ffermio Wythnos Rithiol Mentro <i>Bydd y weminar yn cael ei chynnal ar Facebook Live trwy gyfrwng y Saesneg.</i>	Peredur Owen, Rhys Williams, Emyr Owen, ffermwyr o wahanol fentrau ar y cyd
24/09/20 20:00	Mentro i'r cam nesaf Wythnos Rithiol Mentro <i>Bydd angen cofrestru ar gyfer y weminar yma. Bydd rhannau o'r weminar trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.</i>	Rhodri Jones, Agri Advisor a Matthew Jackson, ffermwr mentor ar y cyd
28/09/20 15:30	Optimeiddio Peiriannau Chwilio	Eddy Webb, <i>Insynch</i>
29/09/20 14:00	Dweud eich dweud (yn adeiladol!) <i>Dysgwch dechnegau i'ch cefnogi mewn sgysiau heriol.</i>	Alice Lampard, Hyfforddwr Perfformiad a Datblygu
01/10/20 20:00	Amser i drafod priddoedd coetir?	Geraint Jones, <i>Cyswllt Ffermio</i>
05/10/20 18:00	Amaethyddiaeth Glyfar a Rhyngrwyd y Pethau	Glass Data
08/10/20 20:00	Maeth moch a phorthiant amgen	Dafydd Owen, <i>Cyswllt Ffermio</i>
12/10/20 19:00	Beth all offer a thechnegau Ffermio Da Byw yn Fanwl Gywir (PLF) ei gynnig i ffermwyr da byw?	Manod Williams, IBERS, Aberystwyth
19/10/2020 - 23/10/2020	Arloesi ac Arallgyfeirio RHITHIOL >>>>>>	
26/10/20 15:30	Google Analytics	Eddy Webb, <i>Insynch</i>
29/10/20 19:00	Rheoli coetir ar gyfer hybu bio-amrywiaeth a bywyd gwyllt	Geraint Jones, <i>Cyswllt Ffermio</i>
02/11/20 15:30	Marchnata drwy e-bost	Eddy Webb, <i>Insynch</i>
16/11/20 18:00	Storio data'n ddiogel yn y cwmwl	Justin Thomas, <i>SIARP</i>
23/11/20 18:00	Defnyddio gwefan EIDCymru	Jonathan Pryce, <i>EID Cymru</i>